# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 21 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 209(v3)

---

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(30 munud)

Gweld Cwestiynau

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Glasbrintiau Cyfiawnder

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Y Ganolfan Fyd-eang ar Ragoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru

(45 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i Gynllun y Grŵp Arbenigwyr ar Ddiogelwch Adeiladau

(45 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Blwyddyn Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Ieithoedd Cynhenid

(30 munud)

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Masnach

(30 munud)

**NDM7052** – Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai'r darpariaethau yn y Bil Masnach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried ymhellach gan Senedd y DU.

Gosodwyd ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:
Bill documents — Trade Bill 2017-19 — UK Parliament (Senedd yn unig)

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Mai 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16/05/2019 i'w hateb ar 21/05/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

1 OAQ53883

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio contractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

2 OAQ53886

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus yng nghymoedd de Cymru?

**Carwyn Jones** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OAQ53882

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd tuag at greu llywodraeth ffeministaidd yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OAQ53909

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd gwerslyfrau adolygu yn ein hysgolion?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

5 OAQ53887

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r cynnig gofal plant a gaiff ei gyllido gan Lywodraeth Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

6 OAQ53928

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella tir amaethyddol yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**7** OAQ53929

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r amgylchedd yng Nghymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**8** OAQ53930

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch Brexit?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**9** OAQ53899

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**10** OAQ53904

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am strwythurau rheoli yn y gwasanaeth iechyd?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

**11** OAQ53920

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhan y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae yn y broses o ddatrys yr anghydfod yn ymwneud ag atal uwch swyddogion gweithredol yng Nghyngor Caerffili?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**12** OAQ53891

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r polisïau gofal presennol ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru?

# Cwnsler Cyffredinol

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**1** OAQ53900

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu'r gwariant hyd yma gan adran gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru i'r adolygiad barnwrol o benderfyniadau'r crwner mewn perthynas â'r cwest i farwolaeth Carl Sargeant?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**2** OAQ53897

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am effaith bosibl creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru ar gyfreithwyr Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**3** OAQ53896

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o orfodi deddfwriaeth ledled Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

**4** OAQ53905

**(e)**

Sut y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo yn yr adolygiad barnwrol o faterion sy'n codi o bolisi Llywodraeth y DU o ran gwneud oedrannau pensiwn menywod yn gyfartal ac effaith y newidiadau hynny ar fenywod a anwyd yn y 1950au?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**5** OAQ53906

**(e)**

Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ar ran Llywodraeth Cymru ynghylch llysoedd teulu i sicrhau eu bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth weithio gyda phlant yng Nghymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**6** OAQ53907

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau diweddar ynghylch ymgorffori confensiynau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru?